Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 47

## Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau’r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

*Gwnaed* *12 Chwefror 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 47

## The Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026

*Made* *12 February 2026*

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 47

# Y COMISIWN ETHOLIADOL

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# SENEDD CYMRU

# Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau’r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae’r Gorchymyn hwn yn pennu 18 Chwefror 2026 fel y diwrnod y daw Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau’r Senedd) 2025 (“Cod Ymarfer”) i rym.

Mae’r Cod Ymarfer yn disodli Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau’r Senedd) 2020, ar gyfer etholiadau i Senedd Cymru a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026. Mae’r Gorchymyn hwn yn dirymu, yn ddarostyngedig i arbedion penodol, Orchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau’r Senedd) 2020 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/194 (Cy. 45)), a oedd yn pennu diwrnod i God Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau’r Senedd) 2020 ddod i rym.

Lluniodd y Comisiwn Etholiadol y Cod Ymarfer drafft a’i gyflwyno i Weinidogion Cymru i’w gymeradwyo, yn unol â pharagraff 3(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41) (“Deddf 2000”). Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo’r Cod Ymarfer drafft heb addasiadau, a gosodwyd y Cod Ymarfer drafft gerbron Senedd Cymru ar 15 Rhagfyr 2025.

Ni wnaed penderfyniad gan Senedd Cymru i beidio â chymeradwyo’r Cod Ymarfer drafft ac o ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn er mwyn pennu’r diwrnod i’r Cod Ymarfer ddod i rym.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Dyroddwyd y Cod Ymarfer gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 3(7)(a) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 a bydd y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 3(7) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 47

## Y COMISIWN ETHOLIADOL

## CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## SENEDD CYMRU

# Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

*Gwnaed* *12 Chwefror 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 3(7)(b) o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**1**) ("Deddf 2000"), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn(**2**).

Lluniodd y Comisiwn Etholiadol ddrafft o God Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 ("Cod Ymarfer") yn unol â pharagraff 3(1) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo, yn unol â pharagraff 3(2) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000.

Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru y Cod Ymarfer drafft heb addasiadau yn unol â pharagraff 3(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000, a gosodwyd y Cod Ymarfer drafft gerbron Senedd Cymru ar 15 Rhagfyr 2025, yn unol â pharagraff 3(4) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000.

Ni wnaed penderfyniad o'r math a grybwyllir ym mharagraff 3(6) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 gan Senedd Cymru o fewn 40 niwrnod i'r Cod Ymarfer drafft gael ei osod.

Dyroddwyd y Cod Ymarfer, ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd, gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 3(7)(a) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 a bydd y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 3(7) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000.

(**1**) 2000 p. 41.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o fewn cymhwysedd datganoledig, i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) a pharagraff 4 o Atodlen 1 iddo.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cod Ymarfer" yw Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025, y gosodwyd drafft ohono gerbron y Senedd ar 15 Rhagfyr 2025.

**Y diwrnod penodedig**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r Cod Ymarfer ddod i rym yw 18 Chwefror 2026.

**Dirymu a darpariaethau arbed**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), mae Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021(**3**) wedi ei ddirymu.

(2) Er bod y Cod Ymarfer yn dod i rym o dan erthygl 2, nid yw'r Cod Ymarfer yn cael effaith mewn perthynas â'r canlynol—

(a) etholiad cyffredinol y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar 6 Ebrill 2026 neu cyn hynny;

(b) Senedd a ddychwelir mewn etholiad cyffredinol y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar 6 Ebrill 2026 neu cyn hynny;

(c) dychwelyd aelod i Senedd a grybwyllir yn is-baragraff (b), mewn etholiad cyffredinol neu fel arall.

(3) Mae Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021 yn parhau i gael effaith mewn perthynas â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2).

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
12 Chwefror 2026

(**3**) O.S. 2021/194 (Cy. 45).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 47

## ELECTORAL COMMISSION

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## SENEDD CYMRU

# The Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order appoints 18 February 2026 as the day on which the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 ("Code of Practice") comes into force.

The Code of Practice replaces the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020, for elections to Senedd Cymru held after the 6 April 2026. This Order revokes, subject to certain savings, the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020 (Appointed Day) (Wales) Order 2021 (S.I. 2021/194 (W. 45)), which appointed a day for the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020 to come into force.

The Electoral Commission prepared the draft Code of Practice and, in accordance with paragraph 3(2) of Schedule 8 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41) ("2000 Act"), submitted it to the Welsh Ministers for approval. The Welsh Ministers have approved the draft Code of Practice without modifications, and the draft Code of Practice was laid before Senedd Cymru on 15 December 2025.

No resolution to not approve the draft Code of Practice was made by Senedd Cymru and as a result, the Welsh Ministers make this Order to appoint the day for the Code of Practice to come into force.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

The Code of Practice was issued by the Welsh Ministers under paragraph 3(7)(a) of Schedule 8 to the 2000 Act and the Code of Practice will be published by the Electoral Commission under paragraph 3(7) of Schedule 8 to the 2000 Act.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 47

## ELECTORAL COMMISSION

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## SENEDD CYMRU

# The Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026

*Made* *12 February 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by paragraph 3(7)(b) of Schedule 8 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(**1**) ("the 2000 Act") make the following Order(**2**).

The Electoral Commission prepared a draft of the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 ("Code of Practice") in accordance with paragraph 3(1) of Schedule 8 to the 2000 Act and, in accordance with paragraph 3(2) of Schedule 8 to the 2000 Act, submitted it to the Welsh Ministers for approval.

The Welsh Ministers approved the draft Code of Practice without modifications in accordance with paragraph 3(3) of Schedule 8 to the 2000 Act, and the draft Code of Practice was laid before Senedd Cymru on 15 December 2025, in accordance with paragraph 3(4) of Schedule 8 to the 2000 Act.

No resolution of the kind mentioned in paragraph 3(6) of Schedule 8 to the 2000 Act was made by Senedd Cymru within 40 days of the draft Code of Practice being laid.

The Code of Practice was issued, in the form of the draft laid before the Senedd, by the Welsh Ministers under paragraph 3(7)(a) of Schedule 8 to the 2000 Act and the Code of Practice will be published by the Electoral Commission under paragraph 3(7) of Schedule 8 to the 2000 Act.

---

(**1**) 2000 c. 41.
(**2**) The functions of the Secretary of State, insofar as they are exercisable within devolved competence, were transferred to the Welsh Ministers by article 45 of, and paragraph 4 of Schedule 1 to, the Welsh Ministers (Transfer of Functions) Order 2018 (S.I. 2018/644).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Title and interpretation

**1.**—(1) The title of this Order is the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025 (Appointed Day) (Wales) Order 2026.

(2) In this Order, “the Code of Practice” means the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2025, a draft of which was laid before the Senedd on 15 December 2025.

### Appointed day

**2.** The day appointed for the coming into force of the Code of Practice is 18 February 2026.

### Revocation and savings provisions

**3.**—(1) Subject to paragraphs (2) and (3), the Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020 (Appointed Day) (Wales) Order 2021(**3**) is revoked.

(2) Despite the coming into force of the Code of Practice under article 2, the Code of Practice does not have effect in relation to—

(a) a general election the poll for which is held on or before 6 April 2026;

(b) a Senedd returned at a general election the poll for which is held on or before 6 April 2026;

(c) the return of a member to a Senedd mentioned in sub-paragraph (b), at a general election or otherwise.

(3) The Political Parties Campaign Expenditure (Senedd Elections) Code of Practice 2020 (Appointed Day) (Wales) Order 2021 continues to have effect in relation to the matters referred to in paragraph (2).

*Jayne Bryant*
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
12 February 2026

---

(**3**) S.I. 2021/194 (W. 45).